Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 12.11.2021

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# COVID-19: Ehangu'r defnydd gofynnol o Pàs COVID y GIG

Cadarnhawyd y bydd defnydd o'r Pàs COVID yn ofynnol i gael mynediad i sinemâu, theatrau a neuaddau cyngerdd o Ddydd Llun 15 Tachwedd 2021 ymlaen. I ddarllen datganiad Llywodraeth Cymru yn llawn, ewch i:

https://llyw.cymru/y-senedd-yn-cymeradwyo-ehangur-defnydd-o-bas-covid-y-gig

- Gellir dod o hyd i'r canllawiau diweddaraf am ddefnyddio Pàs COVID yn:

https://llyw.cymru/defnyddio-pas-covid-y-gig-i-fynd-i-ddigwyddiadau-mawr-lleoliadau

- Gellir lawrlwytho posteri, delweddau a fideos i hyrwyddo ac esbonio Pàs COVID y GIG yma: https://llyw.cymru/pas-covid-y-gig-pecyn-hyrwyddo

# COVID-19: Angen asesiadau risg o hyd ar Lefel Rhybudd 0

Mae Cymru yn parhau i fod ar Lefel Rhybudd 0, gyda holl fusnesau'n gallu agor. Mae cynnal asesiad risg coronafeirws yn parhau i fod yn ofyniad cyfreithiol i fusnesau, cyflogwyr a threfnwyr digwyddiadau, a rhaid gweithredu mesurau rhesymol i leihau'r risg o coronafeirws. Dylid rhoi sylw arbennig i:

- Ymbellhau cymdeithasol, yn enwedig mewn ardaloedd prysur
- Awyru da
- Hylendid dwylo da
- Gwisgo gorchuddion wyneb – mannau cyhoeddus dan do, gan gynnwys siopau, trafnidiaeth cyhoeddus a lleoliadau gofal iechyd

Am ganllawiau ar baratoi asesiad risg, ewch i:

https://llyw.cymru/asesiad-risg-covid-19-eiddo-cyhoeddus-gweithleoedd

Mae cardiau gweithredu mesurau rhesymol ar gyfer nifer o sectorau ar gael yn:

https://llyw.cymru/cardiau-gweithredu-mesurau-rhesymol-ar-gyfer-busnesau-sefydliadau-coronafeirws

# CYFLE: Cwmnïau Marchnata Digidol

Mae Cyngor Gwynedd yn edrych i apwyntio cwmni sydd yn arbenigo yn y maes marchnata digidol a chreu cynnwys

creadigol, all gefnogi'r Cyngor i hyrwyddo ymgyrch Prynu'n Lleol ar y cyfryngau cymdeithasol dros y misoedd nesaf.

Os oes ganddoch brofiad yn y maes ac efo diddordeb derbyn copi o'r briff, yna gyrrwch e-bost i: twristiaeth@gwynedd.llyw.cymru erbyn 5:00pm, 15 Tachwedd 2021.

# DIGWYDDIAD: Social Enterprise Futures 8 Tachwedd 2021 – 8 Rhagfyr 2021

Mae Gŵyl Social Enterprise Futures yn gymysgedd o siaradwyr allweddol ysbrydoledig, cyngor ymarferol a dysgu a rhwydweithio rhwng cymheiriaid, ar gyfer mentrau cymdeithasol. Am fwy o wybodaeth, ac i brynu eich tocyn, ewch i:

https://socentfutures.digileaders.com/

# RHWYDWEITHIO: Rhwydwaith Bwyd ar gyfer Busnesau Cymdeithasol 17 Tachwedd 2021

Cyfle gwych i gwrdd a rhwydweithio â busnesau cymdeithasol a sefydliadau cymorth sy'n gweithio yn y sector bwyd yn y digwyddiad Busnes Cymdeithasol Cymru ar-lein rhad ac am ddim hwn, i'w gynnal ar 17 Tachwedd 2021, o 10:00am-11:00am. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/3H46oQH

# LLES: RCS – Newyddion

Mae newyddion diweddaraf RCS, gan gynnwys gwybodaeth am eu rhaglen hyfforddi arloesol newydd wedi'i ariannu'n llawn, Gwaith Gwych: Hyfforddiant Gyrfaoedd, sydd yn helpu pobl i adolygu eu hopsiynau gyrfa a mynd ar ôl cyfleoedd newydd, ac am y digwyddiad Dod yn Gyflogwr Lles: Gweminar Cyflwyno i'w gynnal ar 24 Tachwedd 2021, 9:30am-10:15am, i'w gael ar:

https://bit.ly/3GYbtKl

## BREXIT: Calendr gweminarau

Gall sefydliadau sy'n masnachu gyda'r UE ddarganfod am weminarau sydd ar y gweill sy'n canolbwyntio ar symud nwyddau penodol rhwng yr UE a Phrydain Fawr:

https://bit.ly/3qBMvua

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru